

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Medi 2017 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Thomas, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Trefniadaeth (AM) a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

Ymgynghorydd Recriwtio (IJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Rachel Flynn, Tony Hugh, Hugh Irving, Alan James, Melvyn Mile, Glenn Swingler, David Williams ac Eryl Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).

3 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: ECONOMI A'R PARTH CYHOEDDUS

Bu i ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd, a arweiniodd at 30 o geisiadau a rhestr fer o 6 ymgeisydd ar gyfer y broses asesu. Cynghorwyd Aelodau bod Panel Penodiadau Arbennig o gynghorwyr wedi nodi dau ymgeisydd gyda'r potensial i gael eu penodi, ac fe'u gwahoddwyd i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau; cafodd y ddau ymgeisydd yr un cwestiynau.

Wedi i'r ddau ymgeisydd adael y Siambr, trafodd yr aelodau eu cyflwyniadau, ymatebion i'r cwestiynau a'u perfformiad yn ystod y broses asesu.

PENDERFYNWYD – penodi Graham Boase i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus.